CYMDEITHAS Y CYMOD

EIN POLISI PREIFATRWYDD

Mae Cymdeithas y Cymod yn elusen wedi ei chofrestru – rhif elusen 700609

Mae Cymdeithas y Cymod yn ymrwymiedig i amddiffyn eich preifatrwydd.

Eglurir sut a phaham y cesglir ac y defnyddir eich data personol a sut y gwnawn gysylltu â chi yn y polisi yma. Daw safonau newydd i fodolaeth ar y 25ain Mai 2018 sydd yn rhoi mwy o ddewis i'r unigolyn a rheolaeth dros sut mae data personol yn cael ei gadw a'i ddefnyddio.

Gallwch ddewis peidio â derbyn gohebiaeth oddi wrthym neu newid sut yr ydym ni'n gwneud cyswllt â chi unrhyw adeg drwy alw rhif ffon 01923 236965 neu anfon ebost at cymdeithasycymod@gmail.com

Wnaiff Cymdeithas y Cymod byth werthu na chyfnewid eich data personol na'i rannu ond pan mae hynny'n angenrheidiol gyda mudiadau sy'n gweithio gyda ni i drefnu ein data a llythyru, lle mae eich amddiffyniad yn gwbl ddiogel.

Bydd eich Data personol (unrhyw wybodaeth sy'n caniatau i rywun eich adnabod neu sy'n perthyn i chi'n bersonol) yn cael ei gasglu a'i gadw gan Gymdeithas y Cymod, elusen rhif 700609 ac yn cael ei ddefnyddio i'ch cadw mewn cyswllt â'n gwaith, ein gweithgareddau a'n digwyddiadau.

Rydym yn casglu'r data rydych chi'n ei roi i ni. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth yr ydych yn ei roi i ni pan rydych yn ymaelodi neu'n cyfathrebu â ni.

- Eich manylion personol (enw, cyfeiriad post, cyfeiriad ebost, rhif ffôn)
- Gwybodaeth ariannol os ydych yn talu drwy'r banc

O ganlyniad i'ch gweithgareddau a'ch cyswllt â ni crëir eich data personol. Gall hyn gynnwys sut yr ydych yn ein helpu drwy wirfoddoli neu drwy gymryd rhan yn ein gweithgareddau a'n hymgyrchion.

Os yr ydych yn cyfrannu at ein gwaith, byddwn yn cadw manylion o ddyddiad a maint y cyfraniad.

Casglwn eich gwybodaeth bersonol am lawer rheswm, er mwyn:

- rhoi'r wybodaeth yr ydych chi'n ofyn amdano i chi
- gweithredu'r rhoddion a'r tal aelodaeth rydym yn ei dderbyn gennych
- gofyn am dâl aelodaeth neu roddion i Cymdeithas y Cymod
- rhoi'r wybodaeth rydych chi wedi ofyn amdano i chi am ein gwaith a'n gweithgareddau
- pwrpas gweinyddol
- cadw record mewnol, er enghraifft gwybodaeth am oruchwylion neu gwyn.

Rydym yn defnyddio data personol i hysbysu cefnogwyr ac aelodau am Gymdeithas y Cymod er mwyn hybu'r Gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys eich hysbysu am newyddion, digwyddiadau ac ymgyrchyroedd.

Defnyddiwn ddata personol i bwrpas gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys:

- derbyn rhoddion a thaliadau
- cadw bas ddata o'n cefnogwyr, aelodau a gwirfoddolwyr
- cyflawni gofyniadau am wasanaethau (Sul Heddwch neu'r pabi gwyn ayb.) wedi eu derbyn ar y cyfrifiadur, y ffôn, drwy lythyr neu'n bersonol.
- ein helpu i barchu eich dewis

Gallwn rannu eich data personol â phobl sy'n ein gwasanaethu. Er engraifft rhennir eich enw a'ch cyfeiriad gyda'r argraffwyr sy'n cyhoeddi *Cymod* gan mai nhw sy'n ei bostio. Mae hyn yn cael ei weithredu drwy gytundeb sy'n rhoi gofynion caeth ar y cyhoeddwyr i gadw eich manylion yn gyfrinachol a diogel.

Mae gennych ddewis os ydych am dderbyn cyswllt ai peidio. Gallwch ddewis sut yr ydych am ei dderbyn (drwy'r post neu ebost). Rydym yn cymryd yn ganiataol eich bod am ddal i glywed oddi wrthym os nad ydych yn gadael i ni wybod yn wahanol. Mae rhaid i ni gael eich caniatâd cyn y gallwn anfon ebost atoch chi. Mae ebost yn ffordd rad a chyflym i anfon neges a gwybodaeth. Gallwch benderfynu peidio cael rhagor o gyswllt â ni ar unrhyw adeg neu newid sut rydych chi am i ni gysylltu â chi drwy roi galwad ffôn i 01923 236965 neu anfon ebost at cymdeithasycymod@gmail.com

Mae cyswllt yn cynnwys

- newyddion a gwybodaeth am y Gymdeithas a'i gwaith

- cyfle i wirfoddoli a helpu
- rhoddion
- gweithgareddau a digwyddiadau
- gadael rhodd yn eich ewyllys
- cymryd rhan mewn prosiect yn ein cynlluniau

Mae ein cylchgrawn *Cymod* yn cael ei anfon er budd ein haelodau a'n cefnogwyr. Fel elusen rydym yn dibynnu ar dâl aelodaeth a rhoddion er mwyn dal ymlaen â'r gwaith. Weithiau cysylltwn i'ch hatgoffa i dalu eich tâl aelodaeth neu i ofyn am rodd. Rydym yn cadw nodyn o'ch cyfraniadau. Cedwir nodyn o faint eich cyfraniad ac amlder.

Mae data electronig a bas ddata yn cael ei gadw ar gyfrifiaduron diogel ac rydym yn rheoli pwy sydd yn gallu cael mynediad i'r wybodaeth.

Defnyddiwn a chadwn yr wybodaeth gyhyd ac y mae angen ar gyfer y pwrpas y casglwyd. Mae hyn yn dibynnu ar yr wybodaeth ac i beth y mae'n cael ei defnyddio. Er engraifft, os y gofynwch i ni beidio anfon ebost atoch byddwn yn peidio â chadw eich cyfeiriad ebost ond byddwn yn cadw record o'ch dewis i beidio â derbyn ebost. Rydym yn adolygu'r wybodaeth sydd gennym yn gyson ac yn dileu beth sydd ddim yn angenrheidiol.

Rydym am sicrhau eich bod yn parhau mewn rheolaeth o'ch data personol. Rhan o hyn yw sicrhau eich bod yn deall eich hawl o fewn y gyfraith fel a ganlyn:

Mae gennych hawl i

- gael copi o'r wybodaeth sydd gennym arnoch, ei newid, ei chywiro neu ei dileu
- newid eich ffordd o gyfathrebu unrhyw adeg
- gofyn i ni dynnu eich gwybodaeth bersonol oddi ar ein record

Os y dymunwch yr hawl yma, ysgrifennwch at ein Cydlunydd, Jane Harries, 42 St. Patrick's Drive, Pen y Bont ar Ogwr, CF31 1RP neu ein Hysgrifenyddes Aelodaeth Eleri Davies, 99 Baldwins Lane, Croxley Green, Rickmansworth, Herts WD3 3LT .

Byddwn yn gwella neu gywiro'r Polisi Preifatrwydd o dro i dro er mwyn sicrhau ei fod yn cadw'n perthnasol ac yn adlewyrchu'n gywir sut a paham yr ydym yn defnyddio eich data.

Rhoddir y polisi ar y wefan gyda'r dyddiad y newidwyd ef ddiwethaf.

Dyddiad a ddiweddarwyd 24.05.2018